

Ein hagwedd tuag at gwynion iechyd yn ystod Pandemig Covid-19.

Mae COVID-19 a'r mesurau iechyd cyhoeddus sydd wedi'u rhoi ar waith i atal yr haint rhag lledaenu wedi gwneud pethau yn anoddach i fyrddau iechyd yng Nghymru ddarparu triniaeth ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19. Pan fu cyfraddau'r haint a derbyniadau ysbyty ar eu brig, roedd adnoddau staff wedi'u hymestyn yn arw i'r graddau bod triniaethau ar gyfer cyflyrau eraill nad ydynt yn ymwneud â COVID wedi'u hatal am gyfnodau maith. Hyd yn oed pan ddarparwyd triniaethau eraill, mae mesurau iechyd cyhoeddus a'r angen am bellter cymdeithasol wedi cyfyngu'n sylweddol y gallu o fewn byrddau iechyd i gael triniaeth.

Bydd ein hasesiad ac ymchwiliad i gwynion iechyd yn ymwneud â'r Pandemig (o fis Mawrth 2020) yn cael eu hystyried yn ofalus yn y cyd-destun hwn. Bydd yr Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio Safonau OGCC mewn Gofal Clinigol i benderfynu a fu'r gofal a thriniaeth glinigol yn briodol o dan yr amgylchiadau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw byrddau/ ymddiriedolaethau iechyd wedi adolygu achosion a blaenoriaethu asesiadau neu driniaeth yn briodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch sut i fonitro a blaenoriaethu amseroedd aros ar gyfer unrhyw asesiadau neu driniaeth frys yn ystod y Pandemig a allai fod wedi'u cyhoeddi gan sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), Codau Ymarfer rheoleiddwyr proffesiynol a chanllawiau gan Golegau Brenhinol.

Byddwn yn ystyried anghenion y claf unigol ac yn gofyn i'r clinigwr neu'r sefydliad sy'n destun i'r gŵyn ddweud wrthym pa safonau neu ganllawiau, os o gwbl, y gwnaethant selio eu harfer arnynt, a wnaethant eu dilyn neu wro oddi wrthynt a pham. Os oes safon neu ganllaw perthnasol "sy'n ymwneud â Covid" ac os ymddengys nad yw'r penderfyniadau, y camau gweithredu neu'r dyfarniadau clinigol a gymerwyd yn unol â hwy, byddwn yn ystyried pa dystiolaeth a allai esbonio hynny. Lle bydd unrhyw gŵyn yn ymwneud â chyfnod brig haint a derbyniadau ysbyty mewn unrhyw ardal benodol, byddwn yn ystyried effaith hyn ar allu'r sefydliad i gydbwyso'r gofynion ar ei adnoddau a'i gapasiti i ddarparu triniaeth wrth ddod i benderfyniad ynghylch a fu gofal a thriniaeth briodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried esboniadau'r sawl y cwynwyd amdanynt ac yn eu cydbwyso yn erbyn y safonau neu'r canllawiau perthnasol sy'n ymwneud â COVID a oedd ar gael ar adeg y digwyddiadau y cwynwyd amdanynt.

Byddwn hefyd yn parhau i ystyried 'Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion Yn Dda' i'r graddau y maent yn berthnasol i gyd-destun clinigol darparu triniaeth yn ystod y Pandemig.